Llywodraeth Cymru

# Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

# Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27 – MEG Trafnidiaeth

## Cynnwys

**1. Cyflwyniad ... 4**
**2. Argymhelliad 16 ... 5**
**3. Argymhelliad 17 ... 6**
**4. Argymhelliad 18 ... 7**
**5. Argymhelliad 19 ... 9**
**6. Argymhelliad 20 ... 10**
**7. Argymhelliad 21 ... 11**
**8. Argymhelliad 22 ... 12**
**9. Argymhelliad 23 ... 13**
**10. Argymhelliad 24 ... 14**
**11. Argymhelliad 25 ... 15**
**12. Argymhelliad 26 ... 16**
**13. Argymhelliad 27 ... 17**
**14. Argymhelliad 28 ... 18**
**15. Argymhelliad 29 ... 19**
**16. Argymhelliad 30 ... 20**
**17. Argymhelliad 31 ... 21**
**18. Argymhelliad 32 ... 22**
**19. Argymhelliad 33 ... 23**
**20. Argymhelliad 34 ... 24**
**21. Argymhelliad 35 ... 25**
**22. Argymhelliad 36 ... 26**
**23. Argymhelliad 37 ... 27**
**24. Argymhelliad 38 ... 29**
**Atodiad A – Dadansoddiad manwl o bob Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL), gan gynnwys BELs AME ... 30**

# 1. Cyflwyniad

Cyhoeddwyd Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27 mewn dau gam. Cyhoeddwyd cyllideb ddrafft amlinellol 2026-27 ar 14 Hydref 2025 a chyhoeddwyd cyllideb ddrafft fanwl 2026-27 ar 3 Tachwedd 2025. Roedd yn amlinellu'r cynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf am y cyfnod Ebrill 2026 i Fawrth 2027.

Fel rhan o'r broses o lunio'r gyllideb, rhoddwyd tystiolaeth ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru i lywio'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2026-27. Roedd y papur hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith am ddyraniadau'r gyllideb sy'n berthnasol i'r cyllidebau Trafnidiaeth.

Cynhaliwyd sesiynau tystiolaeth lafar ar 26 Tachwedd 2025, lle cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru.

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27 ar 15 Rhagfyr. Diolchwn i'r Pwyllgor am yr adroddiad.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried adroddiad y Pwyllgor ac mae'n ymateb i argymhellion 16-38 mewn perthynas â'r cyllidebau Trafnidiaeth isod.

## 2. Argymhelliad 16

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion cryno o'r rhaglenni a'r gwasanaethau a gyllidir gan bob un o'r BEL yn y MEG Trafnidiaeth wedi ei ailstrwythuro, ynghyd â nodyn technegol yn esbonio pwrpas y ddwy BEL AME, a sut mae'r rhain yn ymwneud â'r BEL refeniw nad ydynt yn arian parod.

Ymateb: Derbyn

Rhoddir gwybodaeth yn **Atodiad A** er gwybodaeth i'r Pwyllgor.

# 3. Argymhelliad 17

Dylai Llywodraeth Cymru nodi faint o gyllideb drafnidiaeth ddrafft 2026-27 sy'n cael ei ddyrannu ar gyfer mesurau addasu a lliniaru'r hinsawdd, a darparu ei hasesiad o'r lefelau buddsoddi sydd eu hangen dros y deng mlynedd nesaf mewn seilwaith trafnidiaeth datganoledig a seilwaith trafnidiaeth nad yw'n ddatganoledig.

**Ymateb:** Derbyn

Mewn perthynas â'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol (SRN), mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i argymhellion adolygiad Lugg ar addasu i'r newid yn yr hinsawdd a'i liniaru drwy wella'r ffordd y mae asedau yn cael eu rheoli ar y rhwydwaith. Bydd yn cymryd amser i asesu gofynion addasu i'r hinsawdd yn y dyfodol o ran cyllid. Fodd bynnag, mae astudiaeth gynhwysfawr i ganfod hyn wedi dechrau yn 25/26 a bydd yn gallu adrodd yn llawn yn 26/27. O ran lliniaru, mae maes polisi'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol wedi mabwysiadu dull cyfrifyddu carbon PAS 2080 a bydd yn asesu posibiliadau lleihau carbon ar bob prosiect gwerth dros £1m yn 26/27.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn cydweithio'n agos â Network Rail i gryfhau gwydnwch rhwydwaith rheilffyrdd Cymru a'r Gororau. Mae hyn yn cynnwys gwaith rhagweithiol i glirio llystyfiant ac ymyriadau seilwaith wedi'u targedu i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Bydd 170km o'r rheilffordd yn cael ei thrydaneiddio fel rhan o'n buddsoddiad gwerth dros £1bn i uwchraddio Llinellau Craidd y Cymoedd. Ochr yn ochr â'n buddsoddiad gwerth £800m mewn trenau newydd, mae hyn yn galluogi Trafnidiaeth Cymru i ddarparu gwasanaethau glanach, cyflymach a mwy effeithlon fel rhan o rwydwaith rheilffyrdd modern a chynaliadwy.

Bydd rhan o'r dyraniad cyfalaf Bysiau sy'n dod i dros £39m yn cael ei defnyddio i brynu depos bysiau strategol sydd eu hangen ar gyfer masnachfreinio bysiau. Maes o law bydd y depos yn cael eu trydaneiddio wrth i ni weithio tuag at fflyd bysiau wedi'i datgarboneiddio, er y bydd yn cymryd amser i gyflawni hyn. Nodwyd mai cyfanswm y costau cyfalaf sy'n gysylltiedig â masnachfreinio bysiau yw £308.7m yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a chydnabyddir y bydd yn cymryd nifer o flynyddoedd i gyflawni hyn, yn seiliedig ar y dyraniadau cyllid sydd i'w pennu gan y llywodraeth nesaf.

# 4. Argymhelliad 18

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion am y fformiwla ddyrannu a gymhwysir i'r Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol, gan gynnwys y dyraniadau penodol ar gyfer pob un o'r pedwar rhanbarth, yn ogystal â rhagor o fanylion ar sut bydd gweddill y BEL Trafnidiaeth Ranbarthol a Theithio Llesol yn cael ei gwario.

Ymateb: Derbyn.

Yn ein Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol newydd, bydd cyllid yn cael ei ddosbarthu yn ôl fformiwla. Bydd fformiwla'r Gronfa Cyfalaf Cyffredinol (Cynnal a Chadw Ffyrdd) yn cael ei defnyddio i ddyrannu cyllid cyfalaf. Mae hyn yn cynnwys tair elfen: poblogaeth fwy, hyd ffyrdd a bwysolwyd a llif y traffig. Mae'r pwysoliad mwyaf (41%) yn seiliedig ar boblogaeth fwy, sy'n cynnwys preswylwyr ac ymwelwyr yn y rhanbarth. Fodd bynnag, mae addasu ar gyfer hyd ffyrdd yn adlewyrchu'r ffaith bod costau trafnidiaeth yn fwy mewn ardaloedd gwledig, lle mae mwy o ffyrdd (a seilwaith trafnidiaeth arall) fesul person nag ardaloedd trefol. Cafwyd bod llif y traffig hefyd yn effeithio ar gostau trafnidiaeth. Bydd cyllid refeniw yn cael ei ddyrannu gan ddefnyddio'r fformiwla diogelwch ffyrdd.

Dyma'r dyraniadau dangosol llawn:

| **Rhanbarth** | **Cyfalaf (£)** | **Refeniw (£)** | **Gweinyddu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig (£)** | **Cyfanswm (£)** |
|---|---|---|---|---|
| **Gogledd Cymru** | 28.3m | 0.38m | 0.1m | **28.8m** |
| **Canolbarth Cymru** | 12.8m | 0.17m | 0.1m | **13.1m** |
| **De-orllewin Cymru** | 24.3m | 0.35m | 0.1m | **24.7m** |
| **De-ddwyrain Cymru** | 42.5m | 0.7m | 0.1m | **43.3m** |
| **Cyfanswm** | **107.9m** | **1.60m** | **0.4m** | **109.9m** |

Bydd pob rhanbarth yn llunio un rhaglen wedi'i blaenoriaethu a gytunwyd gan y Cyd-bwyllgorau Corfforedig a'r Awdurdodau Lleol (ALl) cyfansoddol. Bydd hyn yn seiliedig ar eu Cynlluniau Trafnidiaeth Ranbarthol a gytunwyd. Bydd y cais ar

gyfer pob rhanbarth yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys proffiliau ariannol a manylion y cynlluniau.

Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu pob cais i wirio ei fod yn gyson â'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (sydd eisoes wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru), y gallu i'w gyflawni a gwerth am arian. Byddwn yn gweithio ar y cyd â'r rhanbarthau i sicrhau bod y rhaglenni terfynol yn bodloni'r meini prawf hyn.

Bydd y penderfyniadau terfynol yn cael eu gwneud gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru. Ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi grantiau i'r Awdurdodau Lleol yn seiliedig ar y rhaglen ranbarthol a gytunwyd. Bydd y broses hon yn caniatáu i bob rhanbarth fabwysiadu dull mwy cydweithredol a hirdymor, bydd yn rhoi mwy o lais iddynt mewn penderfyniadau, a bydd yn lleihau beichiau gweinyddol.

# 5. Argymhelliad 19

Dylai Llywodraeth Cymru nodi manylion am sut bydd y Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol, a'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol yn fwy cyffredinol, yn cael eu monitro a'u gwerthuso.

Ymateb: Derbyn.

Mae'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gyfrifol am fonitro cynnydd ar Gynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae pob Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi llunio cynllun monitro a gwerthuso sy'n amlinellu sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni.

Bydd y gwaith o gyflawni cynlluniau a gyllidir gan y Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol yn cael i fonitro bob chwarter. Bydd yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gyflwyno gwybodaeth i Lywodraeth Cymru bob chwarter i alluogi hyn. Bydd y Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol yn ei chyfanrwydd yn cael ei gwerthuso ar ôl y tair blynedd gyntaf o weithredu.

# 6. Argymhelliad 20

Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o fanylion am y cyllid ehangach y mae o'r farn y gellir ei ddefnyddio i gynorthwyo'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, gan gynnwys lefel debygol y cyllid, y mathau o gynlluniau y gellir eu cyllido gan bob un a manylion am gyfyngiadau daearyddol ar y defnydd o'r ffynonellau hyn.

Ymateb: Derbyn.

Mae'r gwaith o gyflawni'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol yn golygu bod gan bob rhanbarth yng Nghymru bellach un cynllun sy'n amlinellu'r polisïau o ran gwella trafnidiaeth, ynghyd â chynllun cyflawni sy'n nodi cynlluniau â blaenoriaeth. Mae hyn yn eu rhoi mewn sefyllfa dda i ddefnyddio gwahanol ffynonellau cyllid i gyflawni eu hamcanion.

Mae hyn yn cynnwys y Gronfa Twf Lleol a fydd yn werth £547m yn y blynyddoedd o 2026-27 i 2028-29; y Parthau Buddsoddi yn Wrecsam/Sir y Fflint a Chaerdydd/Casnewydd y mae pob un ohonynt wedi cael £160m o gyllid gan y Llywodraeth; a Bargen Twf y Gogledd. Mae hefyd yn cynnwys cyfleoedd i fanteisio ar fuddsoddiad gan y sector preifat.

# 7. Argymhelliad 21

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion am y graddau y defnyddir cyfraniadau datblygwyr ar hyn o bryd i gyllido seilwaith trafnidiaeth cysylltiedig, a sut mae'n ceisio mynd i'r afael â'r rhwystrau i'w defnyddio, gan gynnwys a ellid cynnwys hyn yn Fframwaith Perfformiad Cynllunio Cymru.

Ymateb: Derbyn.

Mae Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12 – 2024) yn nodi y dylai awdurdodau cynllunio ystyried a yw gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus ar raddfa sy'n golygu bod trafnidiaeth gyhoeddus yn ddewis deniadol ac ymarferol o ran teithio i breswylwyr a defnyddwyr sy'n teithio'n ôl ac ymlaen i safleoedd datblygu. Dylent hefyd ystyried a oes angen lliniaru effaith datblygiad o ran symudiadau a lleihau cyfran y teithiau mewn car y byddai'r datblygiad yn eu creu. Lle byddai angen trafnidiaeth gyhoeddus ychwanegol i ganiatáu i'r datblygiad fynd yn ei flaen, rhaid cynnwys polisi priodol yn y cynllun datblygu, a sicrhau cyfraniadau ariannol drwy amodau cynllunio a/neu rwymedigaethau cynllunio. Dylid rhoi seilwaith a gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus newydd ar waith yn gynnar mewn datblygiad, a chyn i'r bobl sy'n byw yno symud i mewn, er mwyn cefnogi patrymau teithio cynaliadwy o'r dechrau.

Mae Fframwaith Perfformiad Cynllunio Cymru wedi'i adfer yn dilyn Covid ac mae Awdurdodau Lleol wrthi'n casglu data er mwyn adrodd ar berfformiad yn ddiweddarach eleni.

Gan edrych ar adolygiadau o'r Fframwaith yn y dyfodol, gallai fod yn bosibl ystyried sut y gellid cynnwys data ar rwymedigaethau adran 106 yn y datganiadau.

# 8. Argymhelliad 22

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion am sut bydd prosiectau aml-flwyddyn mawr fel Gwelliannau Trafnidiaeth Llanbedr yn cael eu rheoli drwy'r broses Cynllunio Trafnidiaeth Ranbarthol yn gyffredinol, ac yn benodol y Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol. Dylid darparu neu gyhoeddi copi o'r canllawiau a roddwyd i Awdurdodau Lleol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig ar fynediad at y gronfa er budd tryloywder.

Ymateb: Derbyn.

Mae canllawiau'r Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol ar gael yma: Cronfa Trafnidiaeth Ranbarthol: canllawiau i ymgeiswyr 2026 i 27 | LLYW.CYMRU

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu dros £1.4m i Gyngor Gwynedd tuag at ddatblygu **ateb i'r problemau** yn Llanbedr. Mae'r astudiaeth ddiweddar wedi argymell mai'r opsiwn a ffefrir yw ffordd liniaru ynghyd â gwelliannau o ran diogelwch, trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol. Cost amcangyfrifedig yr elfen ffordd yw £39m.

Eleni, rydym yn disgwyl i Ogledd Cymru gael tua £29m gan y Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol – os bydd y cyllid yn parhau ar lefel debyg dros bum mlynedd, bydd Gogledd Cymru yn cael tua £150m o'r Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol. Gall y rhanbarth hefyd fanteisio ar ffynonellau cyllid eraill, fel Bargen Twf y Gogledd a'r Gronfa Twf Lleol newydd.

Bydd angen gwneud penderfyniadau anodd bob amser wrth gyllido prosiectau trafnidiaeth mawr i flaenoriaethu cyllid, ond rydym yn argyhoeddedig y bydd cynnwys arweinwyr lleol yn y penderfyniadau hynny yn arwain at well canlyniadau.

# 9. Argymhelliad 23

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod adroddiadau blynyddol ar wariant yn ôl dull teithio wrth gyflawni Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cynnwys ac yn eitemu pob ffynhonnell gyllido, nid dim ond y Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor.

Adroddir ar gyllid a ddyfernir drwy'r Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol yn ôl dull teithio. Bydd gwariant ar gyflawni'r Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol yn cynnwys ffynonellau cyllid eraill yn ogystal â Llywodraeth Cymru. Byddwn yn trafod y ffordd orau o adrodd ar gynnydd o ran cyflawni gyda'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

# 10. Argymhelliad 24

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r adolygiad o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 erbyn diwedd mis Ionawr fan bellaf.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor.

Bydd yr adolygiad o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn cael ei gwblhau ym mis Ionawr 2026, gan ystyried canfyddiadau ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a gyhoeddwyd ychydig cyn toriad y Nadolig a bydd yn cael ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl, a chyn diwedd tymor y Senedd.

# 11. Argymhelliad 25

Dylai Llywodraeth Cymru nodi manylion y drafft cychwynnol o raglenni teithio llesol mae'n disgwyl iddynt gael eu cyllido drwy'r Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol, sut bydd yn monitro a gwerthuso'r rhaglenni hyn, a sut bydd cyflwyno'r Gronfa yn cynnal momentwm, yn enwedig mewn meysydd lle mae buddsoddiad sylweddol eisoes wedi ei wneud.

Ymateb: Derbyn.

Bydd manylion am raglenni'r Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol yn cael eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2026. Fel y nodwyd o dan argymhelliad 19, bydd y gwaith o gyflawni cynlluniau a gyllidir gan y Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol yn cael ei fonitro bob chwarter. Bydd y Gronfa Trafnidiaeth Ranbarthol yn ei chyfanrwydd yn cael ei gwerthuso ar ôl y tair blynedd gyntaf o'i gweithredu.

# 12. Argymhelliad 26

Cyn gynted ag y cadarnheir y dyraniadau, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu tabl sy'n nodi cyfanswm y dyraniadau a'r dyraniadau y pen i gynorthwyo trafnidiaeth ar fysiau ac yn y gymuned ar gyfer 2026-27, o'i gymharu â phob un o'r tair blynedd flaenorol, gyda dyraniadau refeniw a chyfalaf wedi eu gwahanu a'r tabl wedi ei rannu yn ôl ffrwd cyllido unigol.

Ymateb: Derbyn

Unwaith y bydd y dyraniadau wedi'u cadarnhau a'u cytuno, byddwn yn barod i ddarparu dadansoddiad o'r cyllid a manylion y blynyddoedd blaenorol i'r Pwyllgor.

# 13. Argymhelliad 27

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion am yr amcangyfrif aml-flwydd diweddaraf o'r gofyniad refeniw a chyfalaf ar gyfer cyflawni diwygio bysiau a'r seilwaith cysylltiedig sy'n cael ei ddefnyddio wrth gynllunio'r broses o gyflwyno masnachfreinio. Dylid dadansoddi hyn yn ôl refeniw a chyfalaf a rhoi sicrwydd y bydd hyn yn amddiffyn gwasanaethau presennol ac yn cefnogi eu gwelliant o dan y system ddiwygiedig.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a gyhoeddwyd fel rhan o'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru), yn nodi'r costau sy'n gysylltiedig â'r Bil a'r agenda diwygio bysiau ehangach. Bydd costau staff a chyfalaf trosiannol yn rhan o hyn dros y 5 mlynedd gyntaf ar gyfer y broses o gynllunio pob agwedd ar drefniadau diwygio bysiau yn y dyfodol, gan gynnwys llunio cynlluniau ar gyfer rhwydweithiau wedi'u masnachfreinio, datblygu contractau, gosod systemau tocynnau a data, prynu a gosod depos bysiau ar gyfer gweithrediadau fflyd a chynnal a chadw. Mae'r rhain yn dod i gyfanswm o £372.3m, ac mae £308.7m o'r costau hyn yn cael eu hystyried yn gostau cyfalaf sy'n ymwneud â depos bysiau, TG a systemau tocynnau. Mae'r costau trosiannol sy'n weddill yn ymwneud â'r staff sydd eu hangen i gynllunio a gweithredu rhwydweithiau wedi'u masnachfreinio.

Mae'r costau rheolaidd yn dod i gyfanswm o £466.5m dros weddill y cyfnod arfarnu o 30 mlynedd a ystyriwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sy'n cynnwys costau staff a chostau gweithredol parhaus.

Y refeniw a ddyrennir i'r BEL Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Bysiau yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2026-27 yw £143.169m (cynnydd o £2.669m) a'r dyraniad cyfalaf yw £39.92m (cynnydd o £8.92m). Ers hynny, gwnaed dyraniadau pellach yn y gyllideb derfynol, sef refeniw o £5.977m a chyfalaf o £10m. Bydd y dyraniadau ychwanegol yn ein helpu i gynnal y rhwydwaith bysiau presennol cyn masnachfreinio a chyflymu ein cynlluniau ar gyfer diwygio bysiau.

Ni allwn ddarparu manylion aml-flwydd ynghylch y gofynion refeniw a chyfalaf, gan y bydd y rhain yn benderfyniadau i'r llywodraeth nesaf eu hystyried. Fodd bynnag, mae swyddogion a Trafnidiaeth Cymru wrthi'n gwneud cynlluniau i gefnogi'r broses o ddiwygio bysiau yn raddol ledled Cymru, gan ganiatáu i'r llywodraeth nesaf wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth.

# 14. Argymhelliad 28

Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o fanylion am sut mae'n herio Trafnidiaeth Cymru ar ei gynigion ar gyfer cyllideb diwygio bysiau er mwyn sicrhau bod hyn yn ddigonol ac yn cynnig gwerth am arian. Dylai hyn gynnwys manylion y materion penodol sy'n cael eu herio, ac ar ba sail mae cyllideb 2026-27 ar gyfer caffael fflyd a depo yn cael ei gosod.

Ymateb: Derbyn

Fel rhan o'r broses o sefydlu cyllidebau a dyrannu cyllid ym mhob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn herio Trafnidiaeth Cymru i wneud y defnydd gorau posibl o adnoddau, nodi arbedion effeithlonrwydd a chwilio am arbedion maint. O ran y cynigion ynghylch diwygio bysiau, mae hyn yn cynnwys ystyried cyfleoedd i leihau'r costau sy'n gysylltiedig â thendro llwybrau bysiau, ceisio arbedion maint wrth brynu fflyd a datblygu gweithlu canolfan gyswllt sy'n gallu ymateb i ymholiadau gan deithwyr ar draws amrywiaeth o wasanaethau.

Bydd y gyllideb ar gyfer fflyd a depos, sydd wedi cynyddu bron £9m yn 2026-27, yn caniatáu i Trafnidiaeth Cymru fuddsoddi mewn cerbydau a seilwaith ychwanegol i gefnogi masnachfreinio bysiau yn raddol. Er bod yn rhaid i ni gydbwyso'r cyllid sydd ar gael gyda blaenoriaethau eraill wrth reswm, mae hyn yn dangos ein bwriad i gyflymu'r paratoadau ar ôl i Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru) fynd drwy Gyfnod 4 y broses graffu.

# 15. Argymhelliad 29

Dylai gwerthusiad Llywodraeth Cymru o bris cynllun peilot £1 plant a phobl ifanc gynnwys ystyriaeth a yw mwy o bobl ifanc yn teimlo eu bod yn gallu cael mynediad at addysg, hyfforddiant a/neu gyflogaeth yng nghyd-destun canfyddiadau Sgwrs Genedlaethol y Warant i Bobl Ifanc.

Ymateb: Derbyn

Yn fuan iawn byddwn yn cyhoeddi tendrau ar gyfer gwerthuso'r cynllun. Bydd deall a yw plant a phobl ifanc yn teimlo eu bod yn gallu cael mynediad at addysg, hyfforddiant a/neu gyflogaeth yn well yn elfen bwysig o'r gwerthusiad hwn. Byddwn yn ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc fel rhan o'r broses hon, yn ogystal â'r rheiny sy'n cynrychioli eu safbwyntiau. Drwy Sgwrs Genedlaethol y Warant i Bobl Ifanc, dywedodd pobl ifanc wrthym fod trafnidiaeth yn rhwystr i gael mynediad at addysg, hyfforddiant a/neu gyflogaeth – mae ein cynllun tocynnau bws am £1 yn rhan o'n hymateb i'r neges honno.

# 16. Argymhelliad 30

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r Asesiad Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer y polisi tocynnau bws am £1.

### Ymateb: Derbyn

Byddwn yn cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn yr wythnosau nesaf.

# 17. Argymhelliad 31

Dylai Llywodraeth Cymru ysgrifennu at y pwyllgor yn amlinellu goblygiadau refeniw penderfyniad y Cabinet ar brisiau tocynnau trenau rheoledig pan gaiff ei wneud, p'un a yw prisiau'n cael eu rhewi neu eu cynyddu.

Ymateb: Derbyn

Mae cyhoeddiad Llywodraeth y DU ynghylch rhewi prisiau tocynnau trenau yn effeithio ar Loegr yn bennaf, ond bydd hefyd yn effeithio ar brisiau rhai tocynnau trenau sy'n mynd ar draws y ffin (Cymru i Loegr). Mae opsiynau i rewi rhai neu'r cyfan o brisiau tocynnau trenau Trafnidiaeth Cymru yn cael eu hystyried ar hyn o bryd. Byddwn yn darparu gwybodaeth ar y goblygiadau ariannol i'r pwyllgor pan wneir penderfyniad.

# 18. Argymhelliad 32

Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut mae goblygiadau refeniw hirdymor a fforddiadwyedd lefelau gwasanaeth yn y dyfodol yn cael eu hasesu wrth gynllunio cynnydd mewn lefel gwasanaethau rheilffyrdd yn y dyfodol.

Ymateb: Derbyn

Mae llawer o gyfleoedd ychwanegol posibl yn ymwneud â thrafnidiaeth gyhoeddus ledled Cymru, ond i gyflawni'r rhain bydd angen ystyried yn ofalus iawn ai trenau yw'r dull cywir i'w ddefnyddio o ystyried cost uchel gwasanaethau o'r fath. Mae Trafnidiaeth Cymru yn asesu amrywiaeth o ffactorau wrth ystyried cynnydd mewn gwasanaethau trenau, gan gynnwys amcangyfrifon o ddefnydd gan deithwyr, cynhyrchu refeniw, a'r gofynion gweithredol a'r gofynion o ran seilwaith sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaeth. Mae angen cymhorthdal ar bron bob un o wasanaethau trên presennol Trafnidiaeth Cymru i'w alluogi i redeg. Felly, rhoddir ystyriaeth ofalus bob amser i fforddiadwyedd cynnydd pellach posibl mewn gwasanaethau, gan nodi'r cysylltiad ag unrhyw gynnydd ym mhris tocynnau i helpu i gyllido gwasanaethau.

# 19. Argymhelliad 33

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion am yr iawndal a dalwyd gan TrC dros y tair blynedd diwethaf, wedi eu rhannu yn ôl hyd yr oedi (15 i 30 munud, 30 i 60 munud a 60 munud neu fwy).

Ymateb: Derbyn

Rhoddir y wybodaeth y gofynnwyd amdani yn y tabl isod am y 12 mis diwethaf, wedi'i thalgrynnu i'r £1000 agosaf:

| Hyd yr oedi: | Gwerth yr hawliad (£) |
|---|---|
| 15 – 29 munud | 228k |
| 30 – 59 munud | 443k |
| 60 – 119 munud | 758k |
| 120+ munud | 870k |
| **Cyfanswm** | **2.299m** |

# 20.Argymhelliad 34

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod piblinell prosiect Bwrdd Rheilffyrdd Cymru yn cael ei chyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn galendr hon fel yr addawyd. Dylai amcangyfrifon o gostau ddod gyda hyn.

### Ymateb: Derbyn

Mae Trafnidiaeth Cymru yn arwain y gwaith o ddatblygu gweledigaeth a arweinir gan y diwydiant ynghylch gwelliannau i reilffyrdd yng Nghymru. Mae hyn yn adeiladu ar biblinell prosiect cychwynnol Bwrdd Rheilffyrdd Cymru ac mae'n rhoi trosolwg cynhwysfawr o'r uchelgais hirdymor ar gyfer rheilffyrdd yng Nghymru. Bydd y gwaith hwn yn allweddol wrth sicrhau buddsoddiad cynaliadwy i reilffyrdd Cymru, o dan arweiniad Bwrdd Rheilffyrdd Cymru.
Mae Trafnidiaeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r ddogfen weledigaeth ddechrau 2026.

# 21. Argymhelliad 35

O ystyried pwysigrwydd cynyddol Bwrdd Rheilffyrdd Cymru, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cylch gorchwyl, aelodaeth a manylion ei raglen waith a'i benderfyniadau yn cael eu cyhoeddi er budd tryloywder ac atebolrwydd.

Ymateb: Derbyn

Ym mis Rhagfyr, cytunodd Bwrdd Rheilffyrdd Cymru i sefydlu gweithgor i gynnig cylch gwaith a fformat Bwrdd Rheilffyrdd Cymru a’r is-grwpiau cysylltiedig yn y dyfodol. Cytunwyd y dylai’r adolygiad hwn gynnwys rhanddeiliaid perthnasol a fformat ac amlder cyfathrebu cyhoeddus ynghylch gwaith y Bwrdd.

# 22. Argymhelliad 36

Dylai Llywodraeth Cymru roi ei hasesiad cyfredol i ni o werth yr ôl-groniad cynnal a chadw ar y rhwydwaith cefnffyrdd a'r rhwydwaith ffyrdd lleol.

Ymateb: Derbyn

O ran y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol, mae'r ôl-groniad cynnal a chadw presennol ar gyfer strwythurau priffyrdd yn unig (pontydd, waliau cynnal, pontydd troed, cwlfertau, etc.) dros £1.2bn. O ran ffyrdd, (gosod wynebau ffyrdd ac adeiladu ffyrdd, trwsio tyllau yn y ffyrdd, etc.) mae'r ffigur hwn tua £100m. Nid yw'r data i asesu ôl-groniad ar asedau seilwaith priffyrdd eraill (draeniau, ffensys diogelwch, arwyddion, etc.) mor aeddfed, ac mae'n cael ei wella ar hyn o bryd, fodd bynnag, amcangyfrifir bod y gofyniad dros £100m. Felly, amcangyfrifir bod y cyfanswm dros £1.4bn. Gwerth amnewid asedau'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol ar hyn o bryd yw tua £21bn.

Mae Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cynnal asesiad blynyddol o gyflwr eu rhwydwaith ffyrdd lleol. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cadw gwybodaeth am ôl-groniad cynnal a chadw ar y rhwydwaith ffyrdd lleol gan fod Awdurdodau Lleol unigol yn cynnal a chadw eu ffyrdd fel awdurdod priffyrdd.

# 23. Argymhelliad 37

Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion am y Rhaglen Adnewyddu Asedau Rhwydwaith Ffyrdd Strategol a'r cynllun aml-flwyddyn i fynd i'r afael â'r swm oddeutu £1 biliwn o ôl-groniad cynnal a chadw cyfalaf ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol y cyfeirir ato yn adolygiad Lugg.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru yn rheoli sawl rhaglen waith sydd wedi’u sefydlu yn sgil argymhellion adolygiad Lugg, sef:
Y rhaglen Adnewyddu Asedau Mawr (MAR) sy’n rheoli gwaith adnewyddu ac adfer cymhleth ar raddfa fawr ar y prif lwybrau strategol. Mae enghreifftiau yn cynnwys gwaith adnewyddu Pont Afon Dyfrdwy yr A494, sef cynllun amnewid pont gwerth £150m. Mae nifer o gynlluniau arfaethedig i amnewid pontydd a fydd yn disodli seilwaith hanfodol sydd wedi dod i ddiwedd ei oes dros y 10 i 15 mlynedd nesaf.
Mae’r rhaglen Cynlluniau Aml-asedau (MAS) yn rheoli gwaith adnewyddu asedau ar raddfa ganolig, fel cynllun yr M4 Gogledd Abertawe sy’n cynnwys gosod wyneb ffordd newydd, system ddraenio a rhwystr diogelwch rhwng cyffordd 45 a chyffordd 46. Mae’r cynlluniau hyn yn gwneud y defnydd gorau posibl o le ar y ffordd ac yn lleihau tarfu drwy adnewyddu neu amnewid cynifer o asedau â phosibl yn yr un cynllun.
Mae rhaglenni adnewyddu asedau yn targedu diffygion seilwaith o fath penodol, fel gosod wyneb newydd ar y gerbytffordd neu atgyweirio ac adnewyddu systemau draenio. Y rhaglenni hyn yw’r prif ddull o leihau ôl-groniadau cynnal a chadw ac mae angen lefel uchel o gyfalaf i sicrhau bod yr ôl-groniad yn cael ei leihau, yn hytrach na threfn gynnal a chadw adweithiol neu gyflwr cyson sy’n anghynaliadwy.
Mae offer a systemau cefnogi penderfyniadau a arweinir gan ddata yn sicrhau y rhoddir sylw i flaenoriaethau ac y defnyddir dulliau adeiladu, deunyddiau a thechnegau arfer gorau i gyflwyno strategaethau cynnal a chadw ataliol. Mae budd tymor hwy i hyn, sef lleihau amlder ymyriadau cynnal a chadw, gan arbed costau a charbon, yn unol ag egwyddorion ac argymhellion Lugg.
Mae lefelau uchel parhaus o gyfalaf yn hanfodol i allu lleihau’r ôl-groniad, datblygu profiad, gwydnwch a chynnal buddiannau o Gymru yn y cadwyni cyflenwi, a pharhau i ddatblygu a gweithredu strategaethau cynnal a chadw hirdymor ac arloesol.

Cwblhaodd Llywodraeth Cymru Bolisi a Strategaeth Rheoli Asedau yn 2024 ac mae wrthi'n datblygu cynlluniau rheoli asedau a fydd yn cael eu cwblhau erbyn diwedd 25-26.

# 24. Argymhelliad 38

Roedd y £5 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd ar gyfer y Fenter Benthyca Llywodraeth Leol yn y gyllideb ddrafft eisoes wedi ei gyhoeddi ym mis Mawrth. Er ein bod ni'n deall bod dyraniad 2026-27 yn cael ei wneud yn y gyllideb hon, dylai Llywodraeth Cymru gymryd gofal wrth ddisgrifio dyraniadau cyllid i nodi'n glir ble maent eisoes wedi eu cyhoeddi.

Ymateb: Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau eglurder wrth ddisgrifio ymrwymiadau cyllidebol sy'n rhychwantu blynyddoedd ariannol.

## Atodiad A – Dadansoddiad manwl o bob Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL), gan gynnwys BELs AME

# MEG Trafnidiaeth – Disgrifiad yn ôl BEL

| CYLLIDEB ADNODDAU | | | £'000 | £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cam Gweithredu | Rhif BEL | Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Derfynol 2025-26 | Cyllideb Ddrafft 2026-27 |
| Seilwaith Strategol | 3830 | Datblygu Seilwaith Strategol | 950 | 1,001 |
| Gweithrediadau Traffyrdd a Chefnffyrdd | 1884 | Taliadau Contractiol y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol | 57,857 | 67,668 |
| | 1885 | Gweithrediadau ac Adnewyddiadau'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol | 60,050 | 60,067 |
| | 1886 | Gweithrediadau'r Rhwydwaith – heb fod yn arian parod | 188,691 | 188,691 |
| Gwasanaethau ar Ffyrdd, Rheilffyrdd, Awyr a Môr a Buddsoddi | 1883 | Cysylltedd Cenedlaethol a Rhyngwladol | 4,100 | 4,100 |
| | 1895 | Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Rheilffyrdd | 381,950 | 400,999 |
| | 1895 | Gweithrediadau'r Rhwydwaith – heb fod yn arian parod | 38,000 | 38,000 |
| Teithio Cynaliadwy | 1880 | Cymorth ar gyfer Gwasanaeth Bysiau | 140,500 | 143,169 |
| | 1882 | Trafnidiaeth Ranbarthol a Theithio Llesol | 8,800 | 12,800 |
| | 2030 | Datblygiadau Polisi a Phrosiectau Cenedlaethol | 7,200 | 7,200 |
| Y Lluoedd Arfog | 1250 | Y Lluoedd Arfog | 370 | 370 |
| TRAFNIDIAETH – CYFANSWM Y GYLLIDEB ADNODDAU | | | 888,468 | 924,065 |

| CYLLIDEB GYFALAF | | | £'000 | £'000 |
|---|---|---|---|---|

| Cam Gweithredu | Rhif BEL | Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Derfynol 2025-26 | Cyllideb Ddrafft 2026-27 |
|---|---|---|---|---|
| Seilwaith Strategol | 3830 | Datblygu Seilwaith Strategol | 5,000 | 5,000 |
| Gweithrediadau Traffyrdd a Chefnffyrdd | 1885 | Gweithrediadau ac Adnewyddiadau'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol | 186,800 | 195,320 |
| Gwasanaethau ar Ffyrdd, Rheilffyrdd, Awyr a Môr a Buddsoddi | 1895 | Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Rheilffyrdd | 181,597 | 180,333 |
| Teithio Cynaliadwy | 1880 | Cymorth ar gyfer Gwasanaeth Bysiau | 31,000 | 39,920 |
| | 1882 | Trafnidiaeth Ranbarthol a Theithio Llesol | 120,000 | 126,000 |
| | 2030 | Datblygiadau Polisi a Phrosiectau Cenedlaethol | 4,800 | 4,800 |
| TRAFNIDIAETH – CYFANSWM Y GYLLIDEB GYFALAF | | | 529,197 | 551,373 |

| CYLLIDEB AME | | | £'000 | £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cam Gweithredu | Rhif BEL | Disgrifiad o'r BEL | Cyllideb Derfynol 2025-26 | Cyllideb Ddrafft 2026-27 |
| Gweithrediadau Traffyrdd a Chefnffyrdd | 1940 | Amhariadau Ffyrdd - AME | - | 44,936 |
| Gwasanaethau ar Ffyrdd, Rheilffyrdd, Awyr a Môr a Buddsoddi | 1896 | Trafnidiaeth Cymru - AME | 2,000 | 2,000 |
| TRAFNIDIAETH – CYFANSWM Y GYLLIDEB AME | | | 2,000 | 46,936 |

## 1. Datblygu Seilwaith Strategol

| BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 3830 – Datblygu Seilwaith Strategol | 1,001 | 5,000 |

| Trosolwg |
|---|
| Mae Datblygu Seilwaith Strategol yn is-adran sy'n canolbwyntio ar elfennau masnachol ac sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau seilwaith trafnidiaeth allweddol ac amcanion polisi trafnidiaeth, ynghyd â gweithredu mentrau lleihau carbon mawr. Cyflawnir hyn drwy ddull cydweithredol i ddatblygu datrysiadau arloesol wrth weithio gyda phartneriaid o'r sector preifat a defnyddio adnoddau Llywodraeth y DU ac Awdurdodau Lleol Cymru i fanteisio i'r eithaf ar gyllid allanol â phosibl. Mae sgiliau cyllido masnachol ac arbenigedd yr is-adran hefyd ar gael ar ffurf ymgynghoriaeth fewnol i gynorthwyo cydweithwyr ym meysydd Seilwaith Economaidd, Cyfarwyddiaeth yr Economi, a Thwristiaeth.<br><br>Mae gan nifer o'r prosiectau a reolir gan y tîm effaith gref ar draws portffolios, a defnyddir adnoddau refeniw i ddatblygu datrysiadau cyflawni ac achosion busnes sy'n galluogi buddsoddiad cyfalaf gan drydydd partïon ac arian cyhoeddus. Yn ogystal â'r gyllideb graidd, mae'r Is-adran yn gwneud buddsoddiadau a benthyciadau yn rheolaidd drwy ddefnyddio cyllid trafodiadau ariannol.<br><br>Mae ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i gyflawni prosiect y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd yn flaenoriaeth barhaus nad yw wedi'i chyllido'n llawn. |

| Cyfarwyddwr | Peter McDonald |
|---|---|
| Dirprwy Gyfarwyddwr | Duncan Hamer |

# Gweithrediadau Traffyrdd a Chefnffyrdd

## 2. Traffyrdd a Chefnffyrdd

| BEL | Cyllideb Adnoddau | Cyllideb Cyfalaf |
|---|---|---|

| | £'000<br>(gan gynnwys elfennau heb fod yn arian parod) | £'000 |
|---|---|---|
| 1884 – Taliadau Contractiol y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol | 67,668 | - |
| 1885 – Gweithrediadau ac Adnewyddiadau'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol | 60,067 | 195,320 |
| 1886 – Gweithrediadau'r Rhwydwaith heb fod yn arian parod | 188,691 | - |

**Trosolwg**

Mae Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol gyfrifol am y Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd, sef un o asedau seilwaith pwysicaf Cymru. Mae ganddo gost ddisodli ddibrisiedig o tua £17bn. Mae gwaith cynnal a chadw priodol yn hanfodol er mwyn i Lywodraeth Cymru gyflawni ei dyletswyddau statudol o ran diogelwch a chyflawni ei hamcanion polisi ehangach i Gymru.

Mae'r gwariant a ragwelir yn cynnwys lwfans am 'or-raglennu' i fanteisio ar gyllid ychwanegol a allai fod ar gael drwy lithriant yng ngwariant rhaglenni eraill a ddaw yn amlwg yn hwyr yn y flwyddyn. Os na fydd cyllid ychwanegol ar gael, bydd yr elfen sydd wedi'i gor-raglennu yn cael ei chynnwys yn y flwyddyn nesaf.

Mae elfennau heb fod yn arian parod yn dod i £188.691m sy'n cynnwys dibrisiant y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol.

| | |
|---|---|
| **Cyfarwyddwr** | Peter McDonald |
| **Dirprwy Gyfarwyddwr** | Andy Falleyn |

# Gwasanaethau ar Ffyrdd, Rheilffyrdd, Awyr a Môr a Buddsoddi

## 3a. Cysylltedd Cenedlaethol a Rhyngwladol

| BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 1883 – Cysylltedd Cenedlaethol a Rhyngwladol | 4,100 | |
| **Trosolwg** | | |
| Mae'r swyddogaeth hedfanaeth yn ceisio sicrhau bod cysylltedd awyr yn rhan o'r system drafnidiaeth integredig yng Nghymru, gan gysylltu Cymru â'r byd a'r byd â Chymru, er mwyn cefnogi llesiant economaidd-gymdeithasol y genedl. Mae'r gweithgarwch yn cynnwys cymorth i gyfleusterau hedfanaeth Cymru, a'u datblygu, gan gynnwys meysydd awyr a berchnogir yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, yn ogystal â'r rheiny a weithredir yn annibynnol fel busnesau preifat. | | |
| Cyfarwyddwr | Peter McDonald | |
| Dirprwy Gyfarwyddwr | Stephen Rowan | |

## 3b. Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Rheilffyrdd

| BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 (gan gynnwys elfennau heb fod yn arian parod) | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 1895 – Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Rheilffyrdd | 400,999 | 180,333 |
| 1895 – Trafnidiaeth Cymru – heb fod yn arian parod | 38,000 | |
| **Trosolwg** | | |
| Mae Trafnidiaeth Cymru yn gwmni nid-er-elw a berchnogir yn llawn gan Lywodraeth Cymru. Mae'n bodoli i ddatblygu gweledigaeth Llywodraeth Cymru, sef rhwydwaith trafnidiaeth diogel, integredig, fforddiadwy a hygyrch o safon uchel y mae pobl Cymru yn falch ohono.<br><br>Mae'r BEL hon yn canolbwyntio ar gostau gweithredu a rheoli'r rhwydwaith rheilffyrdd. Mae'n cynnwys cyllid refeniw i weithredu gwasanaethau rheilffyrdd, cynnal a chadw rhwydwaith Llinellau Craidd y Cymoedd, a rhai costau corfforaethol heb eu dyrannu am weithredu Llinellau Craidd y Cymoedd. Y cyllid | | |

| |
|---|
| cyfalaf yn bennaf yw'r buddsoddiad mawr yn rhaglen Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd ond mae hefyd yn cynnwys rhaglenni buddsoddi cyfalaf llai, fel gwella gorsafoedd.<br><br>Mae elfennau heb fod yn arian parod yn dod i £38m sy'n cynrychioli'r dyraniad cyllideb am ddibrisiant a gafwyd gan yr Adran Drafnidiaeth wrth ddatganoli Llinellau Craidd y Cymoedd. |

| | |
|---|---|
| Cyfarwyddwr | Peter McDonald |
| Dirprwy Gyfarwyddwr | Alexandra Walters |

# Teithio Cynaliadwy

## 4a. Teithio Cynaliadwy

| BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 1880 – Cymorth ar gyfer Gwasanaethau Bysiau | 143,169 | 39,920 |
| 1882 – Trafnidiaeth Ranbarthol a Theithio Llesol | 12,800 | 126,000 |

| Trosolwg |
|---|
| Mae'r gyllideb hon yn cefnogi'r gwaith o ddarparu a datblygu dulliau trafnidiaeth cynaliadwy ac yn cefnogi mentrau trafnidiaeth lleol. Mae elfen sylweddol o'r cyllid yn canolbwyntio ar wasanaethau bysiau am ddim i'r henoed a phobl anabl, a theithiau bysiau rhatach i deithwyr ifanc, yn ogystal â darparu gwasanaethau eraill sy'n angenrheidiol yn gymdeithasol. Mae teithiau bysiau rhatach wedi'u gwarchod fel budd cyffredinol. Y cyllid a ddangosir yw cyllid uniongyrchol i'r cynllun o gyllidebau Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru, ond rhoddir cyllid ychwanegol gan Awdurdodau Lleol. Mae'r cynllun teithio rhatach ar fysiau i bobl ifanc (16-18 oed, ond sydd i'w ymestyn i gynnwys pobl ifanc 19-21 oed), gan eu galluogi i gael mynediad at gyfleoedd gwaith, addysg, hyfforddiant a phrentisiaethau, o fudd penodol i bobl o aelwydydd incwm isel ac mae'n helpu i fynd i'r afael â thlodi. Mae hyn hefyd yn cynnwys elfen o gyllid grant i Awdurdodau Lleol ar gyfer prosiectau cyfalaf sy'n ymwneud â newid dulliau teithio ac addasu i'r hinsawdd, arian sy'n ymwneud â newid y fflyd bysiau yn gerbydau trydan ac i gefnogi uchelgeisiau Bws Cymru. Defnyddir rhywfaint o'r |

| | |
|---|---|
| gyllideb Trafnidiaeth Leol i gefnogi Awdurdodau Lleol i weithredu ymrwymiad 20MYA y Rhaglen Lywodraethu yn y flwyddyn ariannol hon. | |
| Cyfarwyddwr | Peter McDonald |
| Dirprwy Gyfarwyddwr | Alexandra Walters |

## 4b. Teithio Llesol

| BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 (gan gynnwys cyfalaf trafodiadau ariannol) |
|---|---|---|
| 2030 – Datblygiadau Polisi a Phrosiectau Cenedlaethol | 7,200 | 4,800 |
| Trosolwg | | |
| Drwy Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, rydym wedi gosod Cymru ar lwybr i helpu i drawsnewid ein gwlad yn 'genedl teithio llesol'. Mae'r Gronfa Teithio Llesol yn fuddsoddiad sylweddol i gynyddu a gwella llwybrau a fydd yn galluogi nifer fwy o bobl yng Nghymru i gerdded a beicio yn ddiogel. Mae cynlluniau Teithio Llesol yn cael eu cyllido ymhellach gan y grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau. Mae cyllid y Grant Diogelwch Ffyrdd hefyd yn cefnogi teithio llesol yn aml drwy welliannau diogelwch fel rhan o gynlluniau cyfalaf, a drwy ddarparu cyllid helaeth ar gyfer hyfforddiant i gerddwyr a beicwyr yn rhan o grant refeniw. Mae hyn hefyd yn cynnwys elfen o gyllid i gefnogi'r newid i gerbydau trydan. | | |
| Cyfarwyddwr | Peter McDonald | |
| Dirprwy Gyfarwyddwr | Alison Thomas | |

# Y Lluoedd Arfog

## 5. Y Lluoedd Arfog

| BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 | Cyllideb Cyfalaf £'000 |
|---|---|---|
| 1250 – Y Lluoedd Arfog | 370 | - |

| Trosolwg | |
|---|---|
| Mae hyn yn adlewyrchu rôl Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth o ran cefnogi Cymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru. Mae'n cynnwys cyllid ar gyfer Swyddogion Cyswllt y Lluoedd Arfog sy'n gweithio gydag Awdurdodau Lleol i gefnogi Cyfamod y Lluoedd Arfog ac annog cydgysylltu rhanbarthol yn y maes hwn. Mae hefyd yn cynnwys cymorth parhaus i Awdurdod Lleol gynnal Diwrnod Lluoedd Arfog Cymru bob blwyddyn a chyllid ar gyfer ymgysylltu a gweithgareddau eraill i gefnogi datblygiad polisi. Nid yw'r llinell hon yn y gyllideb yn adlewyrchu holl gymorth Llywodraeth Cymru i Gymuned y Lluoedd Arfog, gan fod adrannau eraill yn cefnogi gweithgarwch hefyd, e.e. cymorth iechyd i Gyn-filwyr gan GIG Cymru. | |
| Cyfarwyddwr | Emma Williams (Cyfarwyddwr Cyffredinol) |
| Dirprwy Gyfarwyddwr | Mike Connolly |

# Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

Mae cyllidebau AME ar gyfer eitemau sy'n anwadal ac yn anodd eu rhagweld.

## 6a. Gweithrediadau Traffyrdd a Chefnffyrdd

| BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 |
|---|---|
| 1940 – Amhariadau Ffyrdd - AME | 44,936 |
| Trosolwg | |
| Mae'r BEL yn cyllido unrhyw 'gost' sy'n ymwneud â gostyngiadau o gyfanswm cost cynlluniau ffyrdd newydd i'r gwerth agor a osodir arnynt gan ein priswyr annibynnol - a elwir yn 'amhariadau'. Yn draddodiadol, yn y diwydiant adeiladu | |

| | |
|---|---|
| ffyrdd cyhoeddus, amcangyfrifwyd bod hyn hyd at 30% o gyfanswm pris am gost y cynllun, ac mae'r union swm yn hollol unigryw i bob cynllun. Yn y gyllideb hon, mae'r BEL hon wedi gweld cynnydd o £44.936m. Mae hyn yn cynrychioli tua 15% o ddau gynllun y disgwylir iddynt gael eu cynnwys yng nghyfanswm prisiad y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol ym mlwyddyn ariannol 2026-27, sydd tua £20.5 biliwn ar hyn o bryd. | |
| Cyfarwyddwr | Peter McDonald |
| Dirprwy Gyfarwyddwr | Andy Falleyn |

## 6b. Gwasanaethau Ffyrdd, Rheilffyrdd, Awyr a Môr a Buddsoddi

| BEL | Cyllideb Adnoddau £'000 |
|---|---|
| 1896 – Trafnidiaeth Cymru - AME | 2,000 |
| Trosolwg | |
| Mae'r BEL yn cyllido unrhyw 'gost' sy'n ymwneud â newid yng nghyfanswm balans darpariaethau Trafnidiaeth Cymru. Mae darpariaethau ar gyfer gwariant yn y dyfodol yn cael eu cyllido drwy gyllidebau AME hyd nes y byddant yn daliadau gwirioneddol ac yna bydd y ddarpariaeth yn cael ei gwrthdroi. Mae hyn yn golygu y gallai'r balans gynyddu neu leihau o'r flwyddyn flaenorol ac ni fydd hynny'n hysbys tan ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r gyllideb yn cydnabod y posibilrwydd o gynnydd o £2m mewn darpariaethau. | |
| Cyfarwyddwr | Peter McDonald |
| Dirprwy Gyfarwyddwr | Alexandra Walters |